# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2014/15

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Dafydd Rhys Thomas**
**Grŵp: Annibynnol** **Ward: Ynys Gybi**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **[1]Ffigyrau Presenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor | 7 (64%) |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | 1 (12%) |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 3 (60%) |
| Pwyllgor Archwilio | 4 (44%) |
| Pwyllgor Apeliadau (mynychu ar sail rota) | 4 |
| Pwyllgor Safonau | 1 (25%) |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel ddeilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynychu 1 cyfarfod).

| **Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Grŵp Cyswllt Prosiect Horizon Nuclear Power | 3 | 1 |
| Cyngor Iechyd Cymuned | 1 | 1 |

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf wedi bod yn aelod o Gyngor Sir Ynys Môn ers mis Mai 2013 ac mae wedi bod yn fraint cael cynrychioli Ward Ynys Gybi gyda fy nau gyd-gynghorydd, Jeff Evans a Trefor Lloyd Hughes. Yn anffodus, nid oeddwn yn gallu cyflawni fy swyddogaeth oherwydd salwch rhwng Rhagfyr 2014 a Medi 2015 (er yn parhau i fod â diddordeb brwd) ond, yn ffodus, rwyf yn gwella ac yn mwynhau dod yn ôl i swydd gyhoeddus.

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Cyn fy salwch ac ers i mi gael adferiad, rwyf wedi mynychu bron i bob un o gyfarfodydd Cyngor Cymuned Trearddur yr wyf yn aelod ohono a hefyd wedi mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Rhoscolyn fel sylwedydd ac aelod lleol. Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Morswyn ac wedi mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd, yn arbennig felly yn ystod cyfnod yr arolwg gan Estyn. Tan fis Medi roeddwn yn rhiant-llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Bodedern ond rhoddais y swyddogaeth honno i fyny gan nad yw fy mhlant yn mynychu'r ysgol mwyach. Rwyf hefyd yn cynrychioli Cyngor Cymuned Trearddur a'r Gyd-Fwrdd Claddedigaethau Caergybi sy'n gyfrifol am reoli Mynwent Maeshyfryd

Rwy'n cymryd diddordeb brwd ym mhob agwedd ar fywyd yr etholaeth ac rwyf bob amser yn fodlon cwrdd yn anffurfiol gydag etholwyr i drafod unrhyw faterion o bryder personol neu leol e.e. materion cynllunio a phriffyrdd, llifogydd, tai, mwynderau ac ati ac rwyf ar gael i bobl gysylltu â mi ar y ffôn neu drwy e-bost. Rwy'n cyfeirio materion i'r adrannau priodol ar ran etholwyr er mwyn cychwyn trafodaeth a rhaid i mi ddiolch i'r swyddogion am eu cymorth a'u cefnogaeth wrth roi sylw i'r materion hyn a'u datrys.

Yn ddiweddar cymerais ran mewn ymarferiad 'glanhau cymunedol' yn Nhrearddur a drefnwyd gan y Gymdeithas Trigolion sy'n gwneud gwaith ardderchog ac yn rhoi o'u hamser ar foreau Sadwrn i wella golwg y pentref trwy dorri llystyfiant, cael gwared ar sbwriel a phlannu blodau, prysgwydd ac ati. Mae hon yn enghraifft ardderchog o'r hyn y gellir ei gyflawni pan fo cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd.

Wrth gwrs, mae gennyf ddiddordeb hefyd mewn materion sy'n cael effaith ar yr Ynys gyfan e.e. ceisiadau Wylfa Newydd, Y Grid Cenedlaethol a Land & Lakes ynghyd â materion cymdeithasol fel gofal cymdeithasol i oedolion. Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd briffio.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Fel y dywedais uchod, rwy'n cymryd diddordeb brwd yn yr holl faterion sy'n effeithio'r gymuned, e.e.

- Materion Diogelwch Ffyrdd - darparu croesfan i gerddwyr yn Kingsland
- Ailsefydlu'r blwch postio ar Lôn Isallt. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad blynyddol diwethaf roedd y mater hwn yn dal i gael sylw ond rwy'n falch o fedru adrodd bod y blwch postio wedi ei ailsefydlu yn dilyn trafodaethau hir gyda'r Swyddfa Bost.
- Hamdden - Darparu llwybrau diogel i feicwyr a chadw mwynderau cymunedol pwysig megis y cae pêl-droed yn Nhrearddur.
- Materion cynllunio sy'n cael effaith ar ein cymdogaeth ynghyd â'r ceisiadau mwy a fydd yn cael effaith ar yr Ynys gyfan.
- Materion amgylcheddol – ansawdd dŵr, dympio gwastraff ac ati sy'n cael effaith ar yr hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig i dwristiaid.

- Fel cyn-glaf, cefais wahoddiad i fod yn aelod o Brosiect Ailddatblygu Ward Alaw ac rwy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ynghylch ehangu'r cyfleusterau yn Ysbyty Gwynedd.

- Aelod o Fforwm Canser Gogledd Cymru fel cyn-glaf a gwirfoddolwr. Mae hyn yn ymwneud â phob agwedd ar ofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

- Rwy'n cymryd rhan yng Ngrŵp Cydranddeiliaid Caergybi sy'n ymwneud ag adfywiad economaidd Caergybi dan fentrau megis y Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

- Rwy'n chwarae rhan weithredol yn y trafodaethau ar ddatblygu ysgol ardal ar gyfer Caergybi fel rhan o'r rhaglen Moderneiddio Ysgolion.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Ychwanegu Gwerth i Sgriwtini | Medi 2014 |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Tachwedd 2014 |
| Hyfforddiant i'r Pwyllgor Archwilio | Ionawr 2015 |

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Mae'n parhau i fod yn bleser gwasanaethu pobl Ynys Gybi ac unwaith yn rhagor hoffwn ddiolch iddynt am feddwl amdanaf yn ystod fy salwch ac am eu cymorth a'u dymuniadau da yn ystod fy adferiad. Diolch yn arbennig hefyd i Jeff a Trefor am ymgymryd â dyletswyddau ar fy rhan ac i bob aelod o'r Cyngor a'r staff am eu caredigrwydd. Rwy'n edrych ymlaen at gynrychioli'r Cyngor ar y Cyngor Iechyd Cymuned yn ystod y flwyddyn sirol nesaf a pharhau i weithio gyda ac ar ran pobl Ynys Gybi.

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** | **Ebrill 2015** |